



21 Mai 2019

**YMATEB COMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDDU I ADRODDIAD
AROLYGIAETH CWNSTABLIAETH EI MAWRHYDI:**

AMSER I DDEWIS: Archwilio Ymateb yr Heddlu i Dwyll

Darllenais yr adroddiad hwn gyda diddordeb gan ei fod yn tynnu sylw at yr anawsterau wrth ymdrin â mater gymhleth twyll ar hyn o bryd. Ymdrinnir â thwyll yn wahanol i fathau eraill o droseddau ac mae'r adroddiad yn cydnabod rhai o'r broblemau a all godi yn sgil hyn.

Mae swyddogion yr heddlu'n wynebu'r dasg anodd o fod eisiau cefnogi dioddefwyr twyll yn lleol, ond gan weithio gyda threfniadau cenedlaethol, sy'n gwneud y math yma o drosedd yn unigryw. Mae'r cyhoedd yn disgwyl, yn gywir, i dwyll gael ei drin ond nid ydynt yn ymwybodol o'r prosesau sydd ar gael iddynt bob amser, ac efallai nad ydynt yn cael y gwasanaeth y maent yn ei haeddu bob tro oherwydd rhai o'r cymhlethdodau.

Rwyf yn falch o weld bod yr adroddiad yn gwneud nifer o argymhellion cenedlaethol sy'n edrych ar ddarparu gwybodaeth ac eglurhad i'r cyhoedd ar sut y dylai adroddiaau am dwyll gael eu trin. Rwyf hefyd yn croesawu'r argymhelliad y dylai Prif Gwnstabiliaid egluro sefyllfaoedd eu heddluoedd eu hunain erbyn mis Medi eleni.

Mae Heddlu De Cymru'n cymryd twyll o ddifrif ac mae'n gweithredu er mwyn gwella yn y maes hwn ar hyn o bryd. Adlewyrchir hyn yn sylwadau'r Prif Gwnstabl isod ar yr adroddiad:

Gall twyll gael effaith ofnadwy ar fywydau pobl ac mae Heddlu De Cymru'n gweithio'n galed er mwyn atal twyll a chefnogi'r rhai yr effeithir arnynt ganddo. Mae'r troseddwyr hynny sy'n targedu pobl hyn a'r rhai sy'n agored i niwed fel arall yn arbennig o ladraidd; mae mynd i'r afael â'r troseddau hyn yn flaenoriaeth i Heddlu De Cymru. Rydym wedi cyflwyno pecyn hyfforddi i'r holl swyddogion er mwyn eu helpu i weld arwyddion twyll yn well a diogelu'r rhai sydd mewn perygl o gael eu twyllo eto. At hynny, rydym hefyd wedi recriwtio swyddogion i rolau penodol er mwyn atal twyll rhag digwydd ar-lein.

Y Gwir Anrh Alun Michael YH OStJ FRSA

Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru
Police and Crime Commissioner for South Wales



Ni all ymdrin â thwll fyth fod yn fater i'r heddlu yn unig ac rydym yn gweithio'n agos gyda nifer o asiantaethau partner gwahanol er mwyn ceisio atal twyll rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Byddai aelodau o'r cyhoedd a phob heddlu yn gwerthfawrogi mwy o eglurder a chysondeb o ran dull gweithredu pan yr ymdrinnir â thwyll. Rwyf yn gobeithio y bydd argymhellion yr adroddiad hwn yn cyfrannu rywfaint at sicrhau bod hyn yn gallu digwydd. Byddaf yn cadw llygad am y wybodaeth ddiweddaraf ar hynt y gwaith yn fy heddlu fy hun drwy gydol y flwyddyn.

Y Gwir Anrh Alun Michael
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru

Tŷ Morgannwg, Pencadlys yr Heddlu
Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 3SU
ff: 01656 869366
e: commissioner@heddlu-de-cymru.pnn.police.uk
g: southwalescommissioner.org.uk

Tŷ Morgannwg, Police Headquarters,
Bridgend, CF31 3SU
t: 01656 869366
e: commissioner@south-wales.pnn.police.uk
w: southwalescommissioner.org.uk

Mae'r Comisiynydd a'i dîm yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg
The Commissioner and his team welcome correspondence in Welsh or English